

Gwlad o Gyfle Uwchgwmni Nestlom

Cynllun Tref Saltshire

Cymuned sydd wedi bod yn dirywio ers blynnyddoedd lawer yw Saltshire. Ers cau'r gloddfa halen leol mae diweithdra wedi cynyddu'n fawr. Mae menter wedi'i lansio gan y llywodraeth i ddod â bywyd newydd i'r rhanbarth.

Clustnodwyd ardal o dir fel lle addas i'w ailddatblygu. Mae'r llywodraeth wedi pennu y dylai gynnwys cartrefi, diwydiant, ysgol newydd, ac, yn ddadleuol, carchar agored.

Cyflwynodd y llywodraeth gynllun y mae'r pedwar parti sy'n ymwneud â'r datblygiad uchod i gyd yn ei wrthwynebu.

Y partïon yw Cartrefi Bensimon, Nestlom, Cwmni Diogelwch Group Five ac Academi Chwaraeon Saltshire. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, cyn dechrau'r gwaith datblygu mae'r llywodraeth wedi cynnig y cyfle i'r pedwar grŵp ddod i ddatrasiad democrataidd.

Eich tasg yw cyd-drafod datrasiad sy'n dderbyniol i bawb. Mae gennych 30 munud i gynnal trafodaeth gychwynnol.

Rheolau Cyffredinol

- Unwaith y bydd y ffiniau terfynol wedi'u cytuno, ni chaiff partïon groesi tir ei gilydd.
- Dylid dyrannu pob rhan o'r penrhyn.



Uwchgwmni Nestlom (Uwchgwmni Halen Saltshire yn flaenorol)

Mae Uwchgwmni Halen Saltshire wedi bodoli ers dros 100 mlynedd, yn eiddo i deulu Syr Andrew Saltshire. Yn 2003 cymerwyd y busnes drosodd yn ymosodol gan Uwchgwmni Nestlom, pan ddechreuodd y gloddfa brofi trafferthion. Dyw'r berthynas rhwng Syr Andrew a Nestlom ddim yn dda. Maen nhw'n cyflogi llawer o drigolion Saltshire.

Yn ddiweddar darganfu Nestlom proses i greu halen o ddŵr y môr yn defnyddio trydan ac maen nhw am ddefnyddio ynni adnewyddadwy i leihau costau ymhellach. Maen nhw wedi derbyn swm cyfyngedig o arian y llywodraeth ar gyfer purfa fydd yn defnyddio technoleg werdd gan fwyaf ar gyfer ynni. Gallai'r ynni hwnnw ddod o wynt, y môr neu solar. Mae angen iddynt fod yn agos i lan y dŵr i allu cynhyrchu halen yn ddigon rhad.

- Byddai'n well ganddynt gael tir sydd â mynediad at unrhyw draeth**
- Mae angen mynediad helaeth arnynt at gyflenwadau trydan traddodiadol**
- Mae angen rhwydwaith ffyrdd arnynt i gludo'r halen gorffenedig**
- Dydyn nhw ddim yn meindio'r ardal o dir corsïog**



	Coedwig / Coed
	Ardal Werdd
	Cors / Morfa
	Tir Anffrwythlon
	Fflatiau Llaidd
	Hafn (Anrhamwyadwy)
	Clogwyni (Anrhamwyadwy)
	Dŵr Croyw
	Dŵr Hallt
	Tir Gwastad
	Mynyddoedd
	Ffordd Fach
	Traffordd